

Meithrin gwreiddiau cryfion

Helpu creu atebion i gynhwysiant ariannol trwy Undeb Credyd Gogledd Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Lansio Undeb Credyd Wrecsam

Trosolwg

Mae'r stori hon yn dangos sut mae Cyngor yng Ngogledd Cymru wedi chwarae rhan hanfodol wrth greu'r undeb credyd mwyaf yng Nghymru. Trwy symud ei ffofws o fuddsoddi mewn amrywiaeth o brosiectau graddfa fach, at un ymagwedd sengl, mae'n tacio achosion allgau ariannol yn hytrach na'i effeithiau.

Cefndir

Fe fu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) yn cynnig cymorth a buddsoddiad dros gyfnod o 10 mlynedd, ac fe arweiniodd hyn at greu undeb credyd annibynnol ar gyfer ardal Wrecsam. Wedi uno gyda phum undeb credyd arall ar draws y rhanbarth, Undeb Credyd Gogledd Cymru yw'r undeb credyd mwyaf yng Nghymru erbyn hyn, ac mae'n dal i feithrin cysylltiadau cryfion gyda CBSW i helpu trosglwyddo nifer o nodau cynhwysiant ariannol y sir.

Canlyniadau

Pennu canlyniadau sy'n ychwanegu at les Cymru

Tystiolaeth

Gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio gwell gwybodaeth

Cydweithio

Gweithio gydag eraill ar draws ffiniau

Hir dymor

Rhoi sylw i'r achos yn hytrach na'r symptomau

Cysylltu

Canolbwyntio ar y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol

Tryloywder

Mesur y gwahaniaeth yr ydych chi'n ei wneud ac adrodd arno

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Pam

I CBSW fe ddechreuodd y stori yn 2001, pan dynnwyd grŵp llywio eang at ei gilydd i asesu prosiectau posib i daclo cynhwysiant cymdeithasol a thlodi. Ar y pryd, roedd y Cyngor yn buddsoddi mewn amrywiaeth eang o brosiectau bach, trwy weithgorau, a gwelwyd yr angen am ymagwedd i ganolbwyntio ar dlodi tanwydd a thaclo cynhwysiant ariannol a chymdeithasol.

Sefydlwyd grŵp llywio i archwilio'r opsiynau oedd ar gael. O'r broses hon, nodwyd y potensial ar gyfer undeb credyd (cydweithfa ariannol sy'n eiddo i'r aelodau ac yn cael ei rheoli mewn ffordd ddemocrataidd gan ei haelodau, ac yn darparu credyd ar gyfraddau cystadleuol a gwasanaethau ariannol eraill ar gyfer ei haelodau) ar gyfer Wrecsam. Sicrhawyd cefnogaeth ar y lefel uchaf a chyflogwyd swyddog datblygu gyda chyllid gan CBSW, er mwyn cefnogi tyfiant y prosiect a'i oruchwylio.

Beth wnaethon nhw

Un rhwystr ar hyd y daith oedd y saib a orfodwyd am tua dwy flynedd, o ganlyniad i'r posibilrwydd y gallai'r ffaith fod undebau credyd yn cael cymorth gan y wladwriaeth gael ei gweld fel elfen anghystadaluol, gyda'r posibilrwydd y byddai'n arwain at gamau cyfreithiol gan fenthycwyr arian didrwydded a chwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog.

Nid oedd y saib yma heb ei fanteision, oherwydd roedd yn gyfle i'r grŵp llywio gryfhau a ffurfio cynllun busnes a strwythur cryf.

Yn dilyn cyngor cyfreithiol mewnol, roedd angen i CBSW gaffael undeb credyd yn hytrach na'r bwriad gwreiddiol o'i ddarparu'n fewnol hyd nes y byddai'n ddigon cryf i sefyll ar ei draed ei hun.

Ganed Undeb Credyd Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ac roedd ar wahân i CBSW o'r cychwyn cyntaf, ond roedd ganddo gysylltiadau cryf iawn rhwng partneriaid. Arweiniodd y trefniant hwn at greu contract o ymddiriedaeth am dair blynedd, ac yn ystod y cyfnod hwn roedd buddsoddiad CBSW dros £200,000 mewn cyllid uniongyrchol, yn ogystal ag amser parhaus swyddog, cefnogaeth a chyngor.

Yna, aeth y grŵp llywio presennol ymlaen i ddod yn gyfarwyddwyr gwirfoddol yr Undeb Credyd newydd, yn eu hamser eu hunain.

Adroddwyd ar gynnydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Chraffu ar Bolisi ym mis Hydref 2008, ac eto yn 2009. Daeth y cyllid i ben yn 2010, ac erbyn hyn, trwy arweiniad proffesiynol ac effeithiol y grŵp llywio, roedd yna gynllun busnes blaengar mewn lle.

Roedd yr undebau credyd ar draws Gogledd Cymru wedi bod yn cynllunio uno at ddiben moderneiddio a darbodion maint.

“Er mwyn cael cefnogaeth hir dymor Cyngorwyr ac arweinwyr, roedd angen treulio llawer o amser ac egni yn diweddarar pobl ynghylch cynnydd yr undeb credyd. Yn y dyddiau cynnar, roedd weithiau'n anodd esbonio pam fod aelodaeth yn tyfu'n araf, ac yna gofyn i'r Cyngor am gymorth pellach. Ond cadwyd y ffydd. Roedd yn rhaid cadw ffocws ar y wobwr hir dymor ehangach o drosglwyddo undeb credyd cynaliadwy ar gyfer pob un yn Wrecsam.”

Michael Cantwell,
Cyfarwyddwr Gwirfoddol 2001 - 2011

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Aeth hyn law yn llaw gydag ymgyrch fawr gan Lywodraeth Cymru i gefnogi undebau credyd, a'u hyrwyddo, ar draws Cymru. Daeth Undeb Credyd Wrecsam â chysylltiadau awdurdod lleol cryf at y bwrdd ac, yn eu hanfod, unwyd y partneriaid i mewn i undeb

“Roedd sefydlu undeb credyd Wrecsam yn siwrnai faith a llawer yn anoddach nag yr oedden ni wedi ei ddychmygu ar y cychwyn. Roedd yn frwydr gyson i sicrhau bod pawb yn teimlo'n rhan o'r broses ac wedi'u hysbrydoli, yn enwedig yn ystod y dyddiau pan yr oedd yn rhaid i ni aros am ganlyniad y dyfarniad ynghylch cymorth gan y wladwriaeth, a arweiniodd at y posibilrwydd anffodus y gallai'r Cyfarwyddwyr orfod parhau ar eu pennau eu hunain.”

Keith Lane, Swyddog Datblygu'r Undeb Credyd

credyd Llandudno fel y prif gorff. Yr enw ar y corff newydd hwn oedd Undeb Credyd Gogledd Cymru (UCGC) ac fe'i lanswyd yn 2011.

Mae Undeb Credyd Gogledd Cymru wedi dod yn fanc cymunedol ariannol proffesiynol gyda phresenoldeb cryf. Gyda mwy na 12,000 o aelodau, mae'n helpu trosglwyddo nodau cynhwysiant ariannol ac adfywio cymunedol gwreiddiol Cyngor Wrecsam, yn ogystal â rhai ardaloedd awdurdodau lleol eraill ar draws Gogledd Cymru.

Pa rwystrau oedd yn bodoli

Un o'r prif rwystrau yr oedd UC Wrecsam wedi gweithio'n galed i'w goresgyn oedd cyfraddau tyfiant araf, yn rhannol ddyledus i'r ffaith fod pobl yn gweld undebau credyd fel 'banc y dyn

tlawd'. Mae'r ddelwedd hon wedi deillio o wreiddiau hanesyddol a nodau'r rhan fwyaf o undebau credyd, sy'n seiliedig ar foeseg a chadw effaith allgau ariannol i'r lefel leiaf posib o fewn y cymunedau ble maen nhw'n gweithio. Bwydodd yr wybodaeth hon y dyhead i undebau credyd ar draws Gogledd Cymru gydweithio, a nawr mae UCGC yn medru cynnig cyfraddau cyfrif cyfredol sy'n cymharu'n ffafriol gyda banciau'r stryd fawr, ac weithiau'n rhagori arnynt.

Cymhlethdod pellach y mae undebau credyd yn ei wynebu yng Nghymru yw gostyngiad yn y nawdd gan Lywodraeth Cymru. Fe fydd hyn yn golygu na fydd y rhan fwyaf o'r undebau credyd llai yn ymarferol. Mae UCGC yn goresgyn hyn trwy gynllun busnes cynhwysfawr, sydd ar y trywydd iawn i dyfu'n araf, ond mewn ffordd gynaliadwy, gyda'r nod o fod yn llwyr gynaliadwy erbyn 2015.

“Cadwyd y diddordeb trwy fanteisio i'r eithaf ar y cyfoeth o gyfleoedd hyfforddiant a oedd ar gael gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a gan ABCUL (y corff masnachu ar gyfer undebau credyd). Roedd hyn yn golygu bod y Cyfarwyddwyr Gwirfoddol yn dysgu rhywbeth newydd drwy'r amser, ac yn awyddus i ddod allan i gyfarfodydd y Bwrdd (hyd yn oed ar nosweithiau gwlyb yn yr Hydref ...).”

Keith Lane,
Swyddog Datblygu'r Undeb Credyd 2003 - 2007

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Beth newidiodd

Mae bodolaeth Undeb Credyd sefydlog ac ymarferol yn cynnig opsiwn diogel yn lle benthyciadau diwrnod cyflog a chynlluniau benthycy eraill sydd â chyfradd uchel. Mae hyn yn helpu gostwng lefelau allgau ariannol, a'i effeithiau negyddol cysylltiedig ar iechyd, lles a'r opsiynau sydd ar gael i unigolion a chymunedau sy'n wynebu risg ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'r rhanbarth ehangach y mae UCGC yn ei gwasanaethu.

- Undeb Credyd Gogledd Cymru yw'r undeb credyd mwyaf yng Nghymru
- Mae'n un o fudiadau cydfuddiannol mwyaf Cymru, gyda dros 12,000 o aelodau
- Erbyn hyn, mae gan 10% o aelodau Gyfrif Cyfredol gyda'r Undeb Credyd, er mwyn gwneud taliadau ar-lein ac agor cyfrifon cyllidebu
- Mae cynilion aelodau wedi codi 10%, gyda dros £5m mewn cyfrifon mynediad cyflym
- Yn 2012 roedd yna ddifidend iach o 1.5%
- Rhoddwyd 2800 o fenthyciadau (cynnydd o 4%) gwerth dros £2m yn 2012
- Undeb Credyd Gogledd Cymru oedd Menter Gymdeithasol Newydd Orau'r Flwyddyn Cymru 2012

Beth ddysgon nhw

Roedd cael cymorth ar y lefel uchaf yn hanfodol i sicrhau ymrwymiad hir dymor i newid cyfeiriad gwariant yn y gyllideb.

Mae tynnu ynghyd a chefnogi grŵp llywio amrywiol â chymwysterau da wedi arwain at sefydlogrwydd hir dymor UCGC.

Cymerodd y broses uno ddwy flynedd, ac roedd angen cyfathrebu a thrafod yn helaeth gydag aelodau. Canlyniad y broses hir hon oedd strwythur da, ond llai o gyfleoedd i gymryd rhan ar lefel leol. Nawr, mae angen marchnata cryf i fanteisio i'r eithaf ar gryfder y bartneriaeth, yn enwedig gyda'r potensial ar gyfer darparu gwasanaethau eraill.

Manylion Cyswllt a Dolenni

Michael Cantwell

Michael.Cantwell@Wrecsam.gov.uk

Undeb Credyd Gogledd Cymru

“Rwy'n falch iawn ein bod ni wedi medru adeiladu undeb credyd i Wrecsam sydd wedi llwyddo i uno gyda'n partneriaid ar draws Gogledd Cymru, o sefyllfa hynod o gryf. Mae'n wych i'r cymunedau yr ydyn ni'n eu gwasanaethu, ac yn wobwr am y gwaith caled y mae pawb yn ei wneud dro ar ôl tro.”

Sharon Angus Crawshaw,
Cyfarwyddwr Gwirfoddol, 2001 - 2011

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>